


Tu Hwnt i'r Llenni

gan Eic Davies



PRIS



25p

LLYFRAU'R DRYW, LLANDEBY, SIR GAERFYRDDIN

I'r ddrama hon y dyfarnwyd y wobwr gyntaf yng nghystadlaeth cyfansoddi Drama Fer yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn yr Hen Golwyn yn 1941. Wele feirniadaeth Mr. John Gwilym Jones arni.

"Helyntion cwmni drama y tu hwnt i'r llenni sydd yma. Crynhôdd yr awdur ddwsinau ohonynt i ychydig o le a hynny'n hollol naturiol heb arlliw gorlwytho. Ond y rhagoriaeth bennaf yw'r feirniadaeth sydd ynddi, dan gochl hiwmor caredig, iach, o fan genfigen aelodau cwmni drama at ei gilydd, o ddifrawder a diffyg difrifwech rhai ohonynt, o'r awdur sydd hefyd yn gorfod bod yn gynhyrchydd a chwarae rhan ei hunan, o berson pwlyf hirwyntog gyda'i ragfarnau a'i weniaith; mewn gwirionedd, o gant a mil o bethau."

"Ni welir yr un nawws ar watwareg neb o'r dramawyr diweddarach nes inni gyrraedd blaenoriaid Idwal Jones yn Pobl Yr Ymylon, a chwmni drama Eic Davies yn Y Tu Hwnt i'r Lenni."

Elsbeth Evans yn 'Y Ddrama Yng Nghymru.'

PRIS 2/-

Cyfeirier pob gohebiaeth a llawysgrifau at:—

LLYFRAU'R DRYW,
LLANDEBIE
SIR GAERFYRDDIN

Y TU HWNT I'R LLENNI

gan

EIC DAVIES

Man Eiddo Lenni



Llyfrau'r Dryw
LLANDEBIE

SIR GAERFYRDDIN

Argraffiad cyntaf 1948

Ail-argraffiad 1954

DALIER SYLW

Rhaid cael caniatâd swyddogol y cyhoeddwr cyn ehware'r ddrama hon.

Y mae'n ofynnol gyrru am y caniatâd o leiaf saith niwrnod cyn y perfformiad.

Gyrrer at
LLYFRAU'R DRYW
LLANDEBIE
SIR GAERFYRDDIN

D. Evans

Y TU HWNT I'R LLENNI

—
DRAMA UN ACT

*Llwyfannwyd hi am y tro cyntaf gan Chwaryddion Tŷ'r
Cymry, Caerdydd.*

—
Y CHWARYDDION

Mr. James	DEWI LLWYD JONES
Marged GWYNETH J. EVANS
Sam	GRIFFITH JOHN JONES
Gwen LYNNE TUDOR
Siân	GWYNETH PROTHEROE
John	LLEWELYN WALTERS
Y Parchedig Artemus Price			D. LLEWELYN JONES
Neli	EVELYN GWYNNE JONES
Gwilym	RAYMOND EDWARDS

Y TU HWNT I'R LLENNI.

AMSER : TUA 1941.

GOLYGFA

Yr ochr arall i'r llwyfan oddi wrth y gynulleidfa. Digwydd y chwarae heno meron neuadd fawr, ac y mae digon o le felly y tu hwnt i'r llwyfan inni gynnal drama arall. Dyna'r ddrama a welwn ni—y ddrama answyddogol.

Y mae lle i fynd a dod yn y cefn Ch. a De. Llenni sydd yn y cefn, Ychydig iawn o ddodrefn a welir—rhyw gadair fan hyn, bocs fan draw, rhywbeth i eistedd arno pan fo dyn yn aros ei dro i fynd ar y llwyfan. Y mae digon o ystafelloedd bach yn y neuadd lle gallasai'r chwaryddion ymgasglu rhwng y chwarae, ond y mae'r cyfan wedi'i feddiannu heno, a gofru i'r cwmni wneud ar ystafell fach a chefn y llwyfan.

Yn ystod dechrau a diwedd a ddrama chwaraeir “ y ddrama swyddogol,” ond mae'n amhosibl i ni ddeall gair ohoni. Y mae'n amlwg eu bod nhw ar y llwyfan yn gallu clywed yn lled dda, yn enwedig os bydd tawelwch.

Pan gyfyd y llen dyma ni'n dal Marged yn eistedd ar focs hir—Bl. De—yn trin ei hewinedd, a James yn y cefn canol yn sbio trwy blygiad y llenni. A barnu wrth y wên sydd ar ei wryneb, y mae'n mwynhau'r olygfa yn fawr iawn. Yn sydyn, daw broced ar hedfan o'r chwith i ganol y llwyfan, a Sam meron “ pyjamas ” a “ dressing gown ” yn ei ddilyn i'r llawr.

JAMES : Beth gynllwyn wyt ti'n geisio'i wneud ? Pwy all actio yn y fath dwrw ?

SAM (*gan ei hel ei hunan at ei gilydd*) : Sori . . . fe slipes. Daio'r dressing gown yma . . . dyna'r ail waith heno. (*Yn codi'r broced a mynd allan D.*)

JAMES : 'Dyw'r bachgen yna ddim cwarter call ambell waith . . . sarnu'r cyfan . . . a golygfa garu o bopeth !

MARGED (*Gan chwertthin*) : Mae'r “ dressing gown ” yna lawer yn rhy hir iddo.

JAMES : Pam na allai ofalu cael un ddigon byr ?

MARGED : Fe yw'r unig un sy'n ceiso'ch helpu chi, Mr. James ; (*James 'nól at y llenni*), mae'r lleill yn rhy ddiogllyd i ddim.

JAMES : Sh ! Ah ! Da iawn, da iawn eich dau. (*Troi at Marged*). 'Roeddwn i'n gwybod y byddai'r cusan yna'n mynd i lawr yn dda. 'Does dim fel cusan ar lwyfan i dwymo'r gwaed ifanc.

MARGED : A mae'n dipyn o help hefyd i newid lle. 'Roedd y sefyllfa'n mynd braidd yn static cyn i chi gynnwys hwnna, Mr. James.

GWEN (*gan ddod o'r Ch.*) : Mae'r dyn-wrth-y-rhaff yn gofyn faint o'r act yma sy' ar ôl eto, Mr. James ?

JAMES : Rhyw ddwy dudalen a hanner. 'Rwy' wedi dweud wrtho am gadw llygad ar Neli.

GWEN : 'Dyw hi ddim yna.

JAMES : Ddim yna ! Ydy' hi ddim yn prompto ?

GWEN : 'Dwy ddim wedi'i gweld hi ar ôl diwedd yr act gynta'.

JAMES : Wel, pwy sy'n prompto yn yr ochor nawr' te' ?

GWEN : Neb am 'wn i, os nad yw Sam yr ochor draw.

JAMES : Nag yw, neno dyn . . . sarnu popeth mae hwnnw. Fe'i tafodd i hunan â bwced i ganol y llwyfan yma gynneu fach gan wneud y mwstwr rhyfedda'. 'Roedd y lle'n debycach o lawer i ben gwaith na chefn llwyfan.

MARGED : 'Does dim synnwyr bod rhaid inni dyrru ar bennau'n gilydd fan hyn a digon o ystafelloedd yn y Nauadd.

JAMES : Nawr, nawr . . . 'dŷch chi damed gwell o glebran. Mae'r Fyddin wedi cymryd y lle, a rhaid gwneud y gorau o'r gwaetha'. Gwen, cer di i gymryd lle Neli.

GWEN : 'Alla' i ddim . . . 'rwy' i fod i fynd mewn nawr —golygfa'r gân.

(*Myned Gwen. Ch.*)

JAMES : Wel, dyma beth ofnadwy ! Ble all y sgennes na fod wedi mynd ? Mae'n gwybod yn eitha' da fod John yn colli'i "gues" yn yr ail act o hyd.

MARGED : 'Does dim dibynnu arni o gwbl.

JAMES : Ond fe ddylai bod digon o synnwyr yn y ferch i beidio gadael 'i lle heb roi gwybod, beth bynnag oedd yn galw. Rhaid i fi fynd eto, spo.

MARGED : Na, fe af i. Rhowch y copi i mi.

JAMES : Ble mae'ch un chi ?

MARGED : 'Rwy wedi'i golli e yn rhywele . . . 'i adael e' ar y tram ar ôl y practis Nos Wener, 'rwy'n meddwl.

JAMES : 'Does dim copi wedi bod gennych chi oddi ar hynny ?

MARGED : Fe ges i fenthyg copi Sam.

JAMES : Sam ? A beth wnaeth hwnnw ? 'Ddysgodd e' mo'i ran erioed.

(*Dyfod Sam. De.*)

SAM (*yn dal ei ddressing gown i fyny fel gwraig 'slawer dydd yn codi 'i phaish wrth fynd i'r môr*) : Beth gaf i wneud â'r rhaglenni ? Mae lot o rai sbâr heb 'u gwerthu.

JAMES : O paid â'm boddran i am hynny nawr.

(*Mynd Sam De yn swta. Clywir peth chwerrthin a chwibanu o'r gynulleidfa.*)

JAMES : Beth ar wyneb daear sy'n bod nawr eto ?

JOHN (*gan weiddi drwy'r llenni*) : Cue ! Cue !

JAMES : Dyna fe . . . fe wyddwn i . . . ble mae Neli ?

JOHN : Cue ! Cue !

(*Marged yn rhedeg allan. Ch.*)

JAMES (*gan droi'r tudalennau yn wyllt*) : 'Wn i ddim ble maen' hw !

(*Dyfod Sam. De.*)

SAM : Mae'r boi 'na am wybod shwd gyrten ŷch chi'n mo'yn, Mr. James.

(*Dyfod Gwen. Ch.*)

GWEN : Ydych chi am imi ganu'r tri phennill, Mr. James ?

JAMES : Peidiwch â chlebran . . . beth sy' wedi digwydd ? . . . oes na neb yn prompto ?

(*Clywir swm curo dwylo yn y pellter. Dyfod Siân. Ch. yn wyllt ei thymor, a John yn ei dilyn.*)

SIÂN : 'Does dim synnwyr yn y peth o gwbl. Mae'n hen bryd i ti John ddyngu dy ran ar ddiwedd yr act yna.

JAMES : 'Dŷch chi ddim wedi cwpla ?

JOHN : Ydym.

JAMES : Ond 'dyw'r ail act ddim ar ben ?

JOHN : Mae ar ben am heno, ta beth.

GWEN : Ond, 'dwy' i ddim wedi bod mewn eto !

JOHN : Fe neidiodd Siân dudalen gyfan yn rywle . . .

SIÂN : Fe gaiff Neli setlo hynny.

JOHN : A ble mae Neli ? Fe fum i'n erwydro rownd i'r llwyfan gan weiddi, "Cue, Cue" a ches i ddim cue eto. 'Rown i'n meddwl y'ch bod chi a hi yn prompto Mr. James ?

JAMES : Ond y bachgen ofnadwy . . . 'dŷch chi ddim wedi cwpla'r act ! Mae Gwen heb fod i mewn eto, a'r gân heb 'i chanu !

JOHN : Fe ddaeth y cyrten i lawr o rywle, a fe'i diweddwyd hi felly.

JAMES : Ar ganol yr Act !

JOHN : Ddim ar 'i chanol hi'n hollol. 'Dwy' ddim yn credu bod rhagor na dwy dudalen ar ôl . . . a'r gân, wrth gwrs.

(*Dyfod Marged. Ch.*)

JAMES : Ble'r oeddet ti ?

JOHN : 'Rown i ymhobman. Fe es i rownd i'r llwyfan i geisio cael "cue" o rywle ond . . .

JAMES : Na, nid hynny 'rwy'n feddwl . . . faint o'r ddrama adawsoch chi allan ? Beth oeddet ti'n wneud pan anghofiest ti ?

JOHN : Wel, 'rown i wedi cyrraedd y man yna lle'r wy'n mynd at y lle tân i danio sigaret, a dyma Siân yn torri ar 'y nhraws i cyn imi gael amser i ddweud dim.

SIÂN : 'Rown i'n dy weld di'n hir.

JOHN : 'Roedd y 'lighter' yn gwrthod cynneu, a mae'n rhaid cael tân ynddo cyn y galla' i ddweud y llinell nesa'— "mae fflam y 'lighter' hwn ges i gennyf ar fy mhenblwydd, Eluned, fel fflam ein cariad ni'n dau." 'Allwn i ddim dweud hynny'n hawdd iawn, 'allwn i, a dim tân ynddo o gwbl ?

JAMES : "Amateurs !" 'Dych chi ddim ond "amateurs !" Pam na fuaset ti'n 'i guddio fe fel hyn ag esgus bod tân ynddo ?

JOHN : Ond y mae'n rhaid i'r dorf weld y fflam cyn y credan' hw.

JAMES : 'Ddim o gwbl . . . awgrymu yw dy waith di ar y llwyfan .

JOHN : Wel, 'doedd genny' ddim awgrym o fflam, 'ta' beth.

JAMES : Cer ymlaen—beth ddigwyddodd wedyn ?

JOHN : Fe dorrodd Siân i mewn, a 'wyddwn i ddim ble ar y ddaear oeddwn i.

SIÂN : 'Roedd yn rhaid i rywun ddweud rhywbeth.

JOHN : Pam na fuaset ti'n dweud rhyw linell o'r ddrama 'te ? Chlywais i erioed mo'r geiriau yna o'r blaen.

SIÂN : Pam na fuasai Neli, neu chi Mr. James, yn prompto ?—dyna lle mae'r bai.

JAMES : 'Alla' i ddim bod â 'nwylo ym mhopeth. Ble mae Neli ? Mae Mari fach Huws lawer yn well na hi. Pwy ofynodd i honna ddod ?

SIÂN : 'Doedd dim angen gofyn arni.

JAMES : Pwy ishe dod i le fel hyn oedd arni? Mae 'na draddodiad drama yma. Os byddwn ni'n gwneud rhywbeth gartre' 'dyw hi byth yn rhydd, ond os bydd trip i rywle, mae gyda ni.

SAM : 'Dŷm ni damed gwell o goethan nawr. Mae'r peth wedi digwydd, a fe all ddigwydd eto. Petawn i yn y'ch lle chi Mr. James fe newidiwn y lighter 'na am focs o fatshus . . . fe ellwch ddibynnu ar y rheini.

JAMES : Matshyn! Elli di ddim cymharu ffiam matshyn â ffiam cariad! Mae ffiam cariad i barhau am byth . . . yn enwedig mewn drama.

SIÂN : Wel, fe allai fod yn llawer gwaeth, ag os gofynwch chi i fi, Mr. James, mae'r ail act lawer yn rhy hir—'dwy i ddim yn gweld pwynt y gân o gwbl . . . nid chi piau hi ychwaith.

JAMES : Mae'r gân yn draddodiadol . . . yn eiddo i'r genedl, a chystal hawl gen i 'w defnyddio â neb arall. Ag heblaw hynny, rhaid i Gwen gael esgus i newid.

SIÂN : Pam mae'n rhaid iddi newid?

GWEN : Fe garet ti 'ngweld i'n gwisgo'r un hen ddillad o hyd wrth gwrs.

MARGED : Wel, pwy dynnodd y cyrten lawr?

JOHN : 'Wn i ddim, os nad y dyn sy'n gofalu amdano. 'Dyw e'n deall dim o'r ddrama—Sais yw 'e . . . 'Ches i ddim mwy o ollyngdod erioed na'i weld e'n dod lawr, 'ta beth.

JAMES : Marged, ewch i edrych amdano. (*Marged yn mynd. Ch.*) Fe gawn ni setlo'r mater hwn ar unwaith, nawr ag am byth . . . 'rŷch chi wedi sarnu'r ddrama . . . mae pob gair yn yr act yna'n bwysig . . . wedi treulio oriau i feddwl drosti a dyma'r tâl rwy'n gael. Mae pob baich ar f'ysgwyddau i, ysgrifennu, cyfarwyddo, gofalu am y llwyfan, coluro, promptly, popeth, . . . hyd yn oed dysgu rhan rhywun arall os aiff e'n dost. 'Does dim yn cael 'i wneud oni bydda' i wrth law, dim yw dim. Rhaid y'ch tolach

chi o hyd fel rhyw lot o blant bach. 'Dwy ddim yn mo'yn y gwaith, 'does dim siâp wedi bod ar y cwmni oddi ar y dechrau . . . fe ddylai rhywun fod yma yn gofalu am y llwyfan, rhywun arall wrth y golau, colurwr yn perthyn i'r cwmni, dau neu dri yn promptly ac yn helpu, a phob un a'i galon yn 'i waith. Mae'r theatrau bach Saesneg yn gallu gwneud hynny, ag edrychwch ar y graen sy' ar 'u gwaith nhw. Mae digon o frwdfrydedd ynddyn' hw i godi cartre' i'r ddrama, a' ddaw byth yr un llewyrch ar y ddrama Gymraeg cyn y gwnawn ninnau'r un peth. 'Does gennyh chi ddim parch at ddrama . . . Sam yma gynneu fach yn dod heibio ar ganol golygfa garu dyner a gwneud y twrw rhyfedda . . . 'dyw hi ddim yn deg â'r chwaryddion eraill . . . pwy all garu'n effeithiol a swm bweed yn clindarddan yng nghefn y llwyfan?

SIÂN : Dyna beth oedd y swm yna?—Fe chwaddodd pawb dros y lle.

JAMES : Dyna fe . . . dyna'n hollol yr hyn wy'n geisio bwysleisio—trajedi! a'r bobol yn chwerrthin! 'Dŷn 'hw ddim yn cael cyfle iddi deall hi.

GWEN : Mae ambell bwl bach o chwerrthin yn help i ysgafnhau'r awyrglch. 'Allan' hw ddim eistedd yn llonydd am ddwy awr heb ryw faint o chwerrthin.

JAMES : 'Rŷch chi'n iawn, Gwen, ond rhaid cadw'r chwerrthin i'r manau priodol. Maen'hw yma yn y ddrama'n barod. 'Does dim amgen 'u creu nhw.

SAM : Wel, os ŷch chi'n meddwl parhau gyda'n cwmni ni, Mr. James, 'rwy'n credu y byddai'n llawer gwell i chi ysgrifennu Comedi—mae deunydd Comedi reit dda ynom ni.

(*Dyfod Marged, Ch.*)

MARGED : Mae'n dweud wrthyh chi am ddod iddi weld e Mr. James. Mae wrthi'n brysur yn gosod y llwyfan yn 'i le ar gownt y drydedd act.

JAMES : Diolch bod rhywun yn gofalu.

MARGED : Ag os cymrwch chi air o gyngor gen' i, peidiwch â phoeni gormod arno; 'roedd e'n credu bod yr act wedi

ewpla gan nad oedd neb yn dweud dim a John a Siân yn edrych mor anesmwyth.

JAMES : 'Doedd dim bai ar y dyn erbyn meddwl. Fe âf i rownd i ddiolch iddo nawr, ag i weld bod y llwyfan yn iawn. Paratowch chwithau bob un ohonoch. 'Rwyd ti, Gwen, heb newid dy wisg.

GWEN : Fe garwn 'i chadw hi nawr gan na chefais i gyfle iddi gwisgo yn niwedd yr ail act.

JAMES : Elli di ddim gwneud gwaith tŷ mewn gwisg smart fel 'na !

GWEN : Mae wedi 'i gwneud yn arbennig erbyn heno. Dewch, gadewch i mi 'i dangos hi. 'Dyw hi ddim yn deg bod Siân yn cael gwisgo dillad crand o hyd, a minnau mewn rhyw hen ddillad-bob-dydd.

JAMES : 'Welais i ddim creadur mwy direswm na merch ! Nid ar yr hewl wyt ti nawr ond mewn drama !

SAM : Beth am y rhaglenni, Mr. James ?—mae Miss Puw yn aros.

JAMES : O dwed wrthi am 'u cadw nhw hyd ddiwedd y ddrama—mae genny' ormod ar fy meddwl nawr. A Gwen, paid anghofio newid.

(*Myned James. De*).

SAM : Fe garwn i gael mynd mâs o'r pethach ffilmsi hyn ta p'un. Brr . . . 'rwy bron â sythu. Mae'r lle 'ma fel sgubor.

GWEN : Newidia' i ddim.

SIÂN : Fe fydd yn well i ti wneud.

GWEN : Digon hawdd i ti siarad—'rwyd ti'n cael pob part crand mewn drama . . . a dyma'r unig olygfa lle'r wy'n cael cyfle i wisgo rhywbeth smart wedi'i thorri mâs yn glwt.

JOHN : 'Trueni hefyd, a thithau wedi mynd i'r holl drafferth !

GWEN : 'Does dim angen i ti wawdio.

JOHN : Efallai nad â dy waith di'n ofer i gyd. Wrth gwrs, 'fyddi di ddim yn edrych cystal yn y llwyd olau ag o flaen y "footlights," yn enwedig pan fo "make-up" yn gymaint o help. Ond, dere di, fe gei di ddeng munud fach gydag 'e cyn inni fynd 'nôl, os nad yw Neli wedi cael gafael arno.

GWEN : Neli . . . a dyna ble mai hi ?

JOHN : 'Synnwn i fawr, Gwen fach. Mae tipyn o ben ar honna . . . trip bach am ddim . . . Gwen a'i dwylo ynghlwm gyda'r ddrama . . . 'Doedd y gwaith promptly yn ddim ond esgus.

GWEN : O, fe dyna'i llygaid hi mâs. (*Allan yn wyllt. Ch.*).

SAM : Pam oedd eisiau iti son am Gwilym, nawr o bob amser ? Dyna ti wedi 'i chwpla hi am y nos.

MARGED : Nis yma mae Gwilym yn byw ?

JOHN : Ie, ie.

MARGED : Gwilym Ifans—'roedd e'n arfer bod yn athro P.T. yn Reading ?

JOHN : Dyna fe.

MARGED : Ydy' e' a Gwen yn ffrindiau 'te ?

JOHN : Ydyn' oddi ar pan oedden' hw yn y Col. yn Aber. gyda'i gilydd.

SIÂN : Mae hi am ddweud hynny, ond 'dwy' 'i ddim yn credu bod Gwilym wedi gwneud llawer â'r un ferch erioed, a 'rwy'n 'i nabod e'n lled dda.

MARGED : Erbyn meddwl, Neli awgrymodd y'n bod ni'n dod â'r ddrama yma yn y dechrau.

SAM : A Siân yn eilo.

SIÂN : Twt ! Fyddai Gwilym ddim yn edrych ddwywaith ar Neli. 'Does dim digon o gymeriad ynddi i ddal dyn am ragor na noson.

JOHN : Efallai taw dyna'n union beth mae Gwilym yn mo'yn—mae Neli'n damaid bach reit smart.

MARGED : A dyma lle mae Gwilym yn byw ! Os gweli di 'e Sam, dwed wrtho y carwn i gael gair ag e' cyn mynd 'nôl.

SAM : Fe wnaif fy ngorau, Marged, ond cofia, mae gen' ti dipyn o gystadleuaeth rhwng Neli a Gwen . . . a Siân.

(*Myned Sam. Ch.*)

SIÂN : Fe gnoiff e' 'i dafod ryw ddiwrnod.

JOHN : Oes copi o'r ddrama gen' ti, Marged ?

MARGED : Nag oes . . . fe'i collais i e' yn y tram wrth fynd adre' Nos Wener.

JOHN : Paid gadael i'r Capten wybod neu fe fydd hynny'n sen arall arno.

MARGED : Mae e' yn gwybod—bu'n rhaid imi ddweud wrtho gynneu.

JOHN : 'Bwdodd 'e ?

MARGED : Naddo, chwarae teg. A dweud y gwir, mae'n rhy dyner o lawer gyda ni. Fe fuasai llawer un wedi rhoi'r sac i'r lot a'n hala ni i'r cythraul.

SIÂN : Pa gwmni arall 'fyddai'n barod i chwarae'i ddramâu ?

JOHN : O, 'dyw hi ddim cynddrwg, yn enwedig petai hi'n cael chwarae teg, a mae Cwmni Aelwyd Rhyd Wen wedi dechrau arni'n barod—dyna un arwydd dda. Y peth gwanna' ynddi yw'r olygfa garu rhyngom ni'n dau yn yr ail act.

MARGED : Ddeallaist ti erioed mohoni—parodi yw hi, John bach, ar y golygfeydd caru arferol.

(*Dyfod Gwen. Ch.*)

SIÂN : 'Wyt ti ddim wedi newid eto ?

GWEN : Oes ofn arnat ti fy ngweld i ar y llwyfan yn y rhain ?

SIÂN : Twt, 'does dim gwahaniaeth gen' i o gwbl.

JOHN : Ble mae dy gopi o'r ddrama, Gwen ?

GWEN : Fe'i rhos i 'e i'r Neli 'na.

JOHN : Mae'n mynd â'r cwbl oddi arnat ti heno—cer i chwilio amdano i fi.

GWEN : Pwy oedd dy forwyn fach di'r llynedd ? Cer iddi ôl e' dy hunan.

JOHN : Dere nawr—falle y bydd yn help i ti ddod o hyd i Gwilym hefyd.

(*Marged yn mynd allan. Ch.*)

O Marged, wyt ti'n mynd i'r llwyfan ?

MARGED : Pam ?

JOHN : Mae 'nghopi i yn y bocs wrth y drws—dere â fe i fi, dyna ferch dda.

MARGED : 'Fydda 'i ddim yn ôl am sbel, John bach.

(*Myned Marged. Ch.*)

JOHN : Wel dyna beth mawr ! Aiff neb i nôl 'y nghopi drama i, a 'dwy ddim yn rhy siŵr o'r drydedd act chwaith.

SIÂN : Does dim gwahaniaeth gen' i—'dwy fawr ar y llwyfan gyda ti yn honna.

JOHN : 'Fydda 'i damaid gwell o ofyn i ti te ?

SIÂN : 'Ddim o gwbl. (*Mae wrthi ers amser yn trin ei hewinedd*).

(*Dyfod Sam. Ch.*)

SAM : Fan hyn ŷch chi o hyd, y tacle ?

JOHN : O Sam, ga'i fenthyg dy gopi di o'r ddrama ?

SAM : 'Dwy' ddim yn rhy siŵr o 'mhart.

JOHN : Dere bach'an, 'does gen'ti ddim ond rhyw ddwy linell i gyd.

SAM : 'Dwy' ddim yn mynd i ollwng gafael ar hwn nawr ta' p'un.

JOHN : Wel, mae nghopi i yn bocs wrth y . . .

SAM : Cer iddi nôl 'e dy hunan.

JOHN : On'd oes pobol ddilês yn y byd !

SIÂN : Os wyt ti'n mynd i'r llwyfan, Sam, dwed wrth y Capten am roi'r stôl yn y lle iawn. Fe anghofiodd y cyfan am hynny y tro diwetha'.

SAM : Fe fyddai'n llawer mwy gweddus i ti fynd i ofalu am rywbeth bach fel 'na dy hunan yn lle taflu'r gwaith i gyd ar ysgwyddau'r hen foi. 'Dwyt ti, Gwen, ddim wedi newid dy wisg ?

GWEN : Fy musnes i yw hynny.

SAM : O wel, ddweda'i ddim rhagor. Oes un ohonoch chi'n gwybod ble mae'r copi oedd gan Neli ?

SIÂN : Gofyn i'r Capten, fe sy'n gofalu am bopeth.

JOHN : Os cei di afael ar Gwilym, synnwn i fawr na chei di afael ar y copi hefyd.

JAMES (*yn rhuthro i mewn. De*). Rhagor o drwbwl nawr eto—mae rhaff y cyrten wedi torri.

JOHN : Clymweh hi.

JAMES : Mae'n amhosibl gweithio rhaff a chwlm arni. Fe aeth un o'r bechgyn i edrych am raff newydd. Gobeithio na bydd e ddim yn hir—mae'r dorf yn dechrau mynd yn anhywaith.

SIÂN : Beth am araith y Cadeirydd ? Pwy yw 'e ?

JAMES : Rhyw Ficer o'r cylch—ond 'rwy'n deall nad yw'e wedi cyrraedd. Petai rhywun yma i ganu, neu i adrodd neu rywbeth.

GWEN : Fe alla' i ganu'r gân oedd i fod yn niwedd yr ail act.

JAMES : Fyddai hynny ddim yn syniad drwg o gwbwl ! Rhaid imi gael rhywun i dy gyflwyno di, ag i egluro pam y mae'r drydedd act mor hir cyn dechrau.

GWEN : Fe af i i edrych am rywun nawr ar unwaith.

SIÂN : Aros, Gwen. Mr. James, peidiwch â gadael iddi wneud ffyliaid ohonom i gyd . . . 'dyw hi ddim yn iawn iddi ganu a hithau yn y ddrama.

GWEN : Pam lai ? 'Dwyt ti ddim ond yn eiddigus am na elli di gauu dy hunan.

SAM : 'Wela' i ddim byd o'i le yn hynny, ag mae'n rhaid cael thywun i lanw'r bwllch.

SIÂN : Gofala di am dy fusnes dy hunan. 'Rwyt ti bob amser yn ceisio eodi'i llewys hi. Fe fyddai'n ffitiach gwaith o lawer i ti fynd i edrych am y copi 'na.

JAMES : Nawr ! Nawr ! Nid dyma'r amser i gweryla.

JOHN : Mr. James bach ! Petaech chi'n gwybod y cyfan, fe wnai blot drama heb 'i ail i chi.

JAMES : Betn yw dy feddwl di, John ?

JOHN : Fe 'allan' hw'u dwy egluro'n llawer gwell na mi.

SIÂN : Pediwch â gwrando a arno, Mr. James. 'Dwy-i ddim ond yn meddwl am y'n henw da ni fel cwmni. Ag heblaw hynny, 'dyw Gwen ddim wedi newid 'i gwisg eto.

JAMES : Wel nag yw wrth gwrs. Ewch iddi newid hi ar unwaith.

GWEN : Fe gei di dalu am hyn ! (*Allan. Ch.*)

SAM : Mae dy lond di o wenwyn, Siân. (*Allan ar ôl Gwen*).

(*Dyfod Marged. De*).

MARGED : 'Dy'ch chi ddim wedi dechrau'r drydedd act eto ? Mae'r dorf yn mynd yn anhywaith ag yn disgwyl.

(*Dyfod Sam a'r Parchedog Artemus Price. Ch.*)

SAM : Dyma fe fan hyn, Mr. Price. Y Parchedig Artemus Price—mae am gael fair â chi, Mr. James. (*Allan. Ch.*).

PRICE : Sut ydych chi, Mr. James ? Mae'n dda gen' i gwrdd â chwi. Maddeuwch imi am roi fy nhraed ar dir sanctaidd fel petai, ond y mae'r dorf yn dechrau mynd ychydig yn anesmwyth ac yn disgwyl am y third act, yn

disgwyl yn awchus hefyd. Mae'n dda, yn dda odiaeth, er nad wyf i wedi cael cyfle i weld fawr o ddim ar wahân i ddiwedd y second act. Angladd wedi 'nghadw i . . . hen aelod o'r eglwys yn cael ei gladdu heddiw yn Rhydymwyn. ag yr oedd yn rhaid i mi fod yno o barch i'r hen gyfaill. Trueni i'r ddau beth daro ar draws ei gilydd ynte? Fe aeth un o'r brodyr yn hirwyntog a minnau'n colli'r bws yn y fargen. (*Eisoes y mae James wedi Price ac y mae'n ceisio cael gair i mew'n bob hyn a hyn ynglŷn â'r "speech," ond does' dim gobaith ganddo*). 'Dedd yr un arall yn dod wedyn am ddwy awr. Fe gerddais i Bontyrhyd ac yn ffodus iawn fe ddaeth cyfaill heibio yn ei gar pan oeddwn i ar fynd i chwilio amserau'r trên. 'Roeddwn i wedi meddwl y byddai'n rhaid i mi ffonio neu anfon teligram i ddweud nad allwn i ddod o gwbl, ond fe arbedais y draul honno a chael lifft yn y fargen. A phan glywodd e' mai myfi oedd y gŵr gwâdd yma heno fe aeth allan o'i ffordd a dod â mi bob cam at ddrws y Neuadd. Ag fel y dywedais i, Mr. James, 'dwy-i ddim wedi cael ond darn o'r Second Act, ag yr oedd hwnnau'n flasus, yn flasus dros ben. Mae dwy act ar ôl, onid oes?

JAMES: Oes, ond y mae . . .

PRICE: Dim esgusodion, dim o gwbl. Mae'r darn bach a welais i eisioes wedi profi eich gallu chwi. Ag y mae gennyh chwi gwmni, Mr. James, cwmni o actorion sy'n gwybod eu gwaith. Mae yma adnoddau gwerth eu meithrin a'u disgyblu, ag yn cael eu disgyblu hefyd. Mae graen ar y gwaith. Digon hawdd canfod bod gweledigaeth, awdurdod, ag ufudd-dod yn cyd-dynnu yn y cwmni hwn. Ac mae'n rhaid eu cael . . . cymerwch ddiwedd y Second Act 'ma, yr actio tawel . . . munud llawn ohono fel y gwelais i droeon ar y London stage—yr anesmwythyd oedd yn dilyn yr olygfa garu ddwys, a'r llen wedyn yn disgyn fel ergyd o wn i gloi'r cyfan. Dyna beth oedd darlun! . . . hawdd gweld bod cynnwrf yng ngwaed y bachgen ifanc—dyma fe ynte?

JAMES: John . . . Mr. John Roberts. Ychydig bach cyn i chi . . .

PRICE: Mae'n dda gen' i gwrdd â chwi, 'machgen i. Daliwch ati . . . mae gennyh chwi dalent, gwnewch fawr

ohoni, peidiwch â'i chladdu. Pwy ŵyr na chawn eich gweld chwi rywdro yn rhoi Cymru ar y map . . . ar y Sgrîn. A chwithau?

SIÂN: Siân Ifans.

JAMES: Fel roeddwn i'n . . .

PRICE (*gan gydio yn ei llaw a'i dal o hyd wrth siarad â hi*) Siân . . . Siân Ifans . . . enw Cymraeg tlws yn gweddu ei berchennog i'r dim. Fe garwn i fod yn fachgen ifanc un waith eto i gael y fraint o chware gyferbyn â chwi yn y Gomedï brydferth hon. A gyda llaw, Mr. James, gadewch i mi eich llongyfarch ar iaith y ddrama—Cymraeg glân heb ddim maswedd yn unlle.

(*Clywir Gwen yn canu "Ffarwel i Blwy' Llangower"*)

Ust! Pwy sy'n canu?

SIÂN: Fe fyynnodd y bitsh fach ddangos 'i hunan!

(*Mynd Sian yn chwyrn a John a Marged yn ei dilyn. Ch.*)

JAMES: Un o'r merched sy'n canu, Mr. Price.

PRICE: Un o ferched y ddrama?

JAMES: Ie.

PRICE: Mae Act Three wedi dechrau felly?

JAMES: Na—dyna oeddwn i am egluro i chi gynneu. Mae rhaff y cyrten wedi torri a fe awgrymodd rhywun fod Gwen yn canu i lanw'r bwlech. 'Roeddwn i'n deall y'ch bod chi heb gyrraedd neu fe fuaswn wedi gofyn i chi siarad—mae gennyh chi araith?

PRICE: Rhyw bwt bach . . . dim llawer. Byddai'n chwith iddynt droi adre' heb air oddi wrth Gadeirydd.

JAMES: Pa bryd y carech chi siarad—ar y diwedd neu rhwng y drydedd a'r bedwaredd act?

PRICE: Rhwng y ddwy act rwy'n meddwl. Bydd pobl yn codi o'u seddau ac yn rhuthro i ddal eu cerbydau ar y diwedd. Fe garwn-i gael gwrandawriad lled dda, achos mae

dau neu dri phwynt arbennig gennyf i'w pwysleisio. Ag yn naturiol fe fyddant yn disgwyl gair oddi wrth yn awdur wedi'r ddrama. Dowch rownd i'r llwyfan i wrando ar yr eneth yma—mae yn canu'n brydferth.

(*Myned Price a James. De. Dyfod Neli a Gwilym ymhen ychydig. Ch.*)

NELI: Dyna beth od—rhaid 'u bod nhw heb gwpla'r ail act!

GWILYM: Pwy sy'n canu 'te?

NELI: Cân yn yr ail act yw hi. Ond ble mae pawb? Aros funud—fe af i rownd i'r ochor i weld, Gwilym.

GWILYM: Fe ddof innau hefyn.

NELI: Na paid er mwyn popeth—fe fydd y gynddaredd wyllt ar y Capten os gwel 'e rywun ond aelod o'r cwmni yn agos i'r llwyfan.

(*Gwilym yn ei chofleidio a'i chusanu.*
(*Dyfod Sam. De.*)

SAM: Hm . . . y tu hwnt i'r llenni y mae'r ddrama i fod. Neli. (*Gwilym a Neli yn datgofleidio.*) Ble yn y byd wyt ti wedi bod?

NELI: Ydy'r Capten yn winad?

SAM: Mae pris pert ar dy groen di 'merch i. Paid gadael iddo dy weld di nes bo'r act nesa wedi dechrau. Diflannwch i rywle.

(*Myned Gwilym a Neli Ch. Mae'r gân wedi cwplâu.*
Clywir curo dwylo a banllefau. Dyfod Siân De.)

SIÂN: Dyna beth dwl oedd iddi ganu fel 'na.

(*Dyfod Gwen. Ch.*)

SAM: Llongyfarchiadau, Gwen—fe genaist yn ardderchog.

(*Dyfod Price a James De.*)

PRICE (*gan roi'i fraich am ei hysgwydd*): Campus fy ngeneth i, campus! Dowch, mae'r dorf yn gweiddi am ragor. Rhowch un gân fach arall iddynt.

GWEN: 'Wn i ddim beth fyddai'n taro.

PRICE (*gan ei harwain allan. De.*) Meddyliwch am rywbeth, rhaid plesio'r dorf.

SIÂN: 'Roeddwn i'n meddwl inni ddod yma er mwyn y ddrama!

SAM: Ble mae bocsy y "make up," Mr. James?

JAMES: Y blwch coluro, wyt ti'n feddwl?

SAM: Gelwch chi 'e beth fynnoch chi.

JAMES: Pam?

(*Clywir Gwen yn dechrau canu "Merch y Melinydd"*)

SAM: Fe ddaeth rhywun o'r cefn a dweud bod angen tipyn bach o ddu dan fy llygaid i.

JAMES: Rho weld. Gallet, fe allet wneud â thamaid bach hefyd. Dere â'r blwch i fi o'r rŵm fach—'does him posib troi yno.

(*Dyfod Marged. De.*)

MARGED: Mae'r dyn am dy help di gyda'r rhaff, Sam.

SAM: 'Does gen' i ddim amser nawr. Gofyn i John.

JAMES: Fe ddof i Marged. Aros i fi ddod 'nôl Sam cyn gwneud dim i dy wyneb.

(*Myned James a Marged. De.*)

SAM: Wyt ti'n gwybod pwy fu yma gynneu, Sian?

SIÂN: Pwy?

SAM: Fe gei di dri chynnig.

SIÂN: Nid Gwilym?

SAM: 'Roedd e'n holi amdanat ti, ond fe ddaeth Neli o rywle a'i ddwyn e' bant. 'Roedd 'i llygaid hi'n disglerio fel dwy seren fach. (*Mynd Sam dan chwerthin yn gellweirus, Ch.*)

SIÂN : Yr hen gythraul fach !

(*Mae'n symud yn anesmwyth . . . yn cymryd "compact" o'i bag ac yn powdro'i thrywyn a rhoi 'i gwallt yn daclus. Erbyn hyn y mae'r canu wedi cwplâu. Clywir cymeradwyaeth y dorf a daw John a Marged. De.*)

JOHN : Mae nhw'n hoffi rhywbeth fel 'na lawer yn well na'r ddrama 'i hunan.

MARGED : 'Fuost ti ddim yn gwranddo, Siân ?

SIÂN : 'Rown i'n gallu clywed llawn digon o'r fan yma (*Codi ac allan. Ch.*).

MARGED : 'Dyw hi ddim yn teimlo'n dda mae'n amlwg !

JOHN : Mae'n gallu bod yn eitha' hen sgram fach pan fydd hi.

(*Dyfod Price a James. De.*)

MARGED : Ydy'r drydedd act ar ddechrau 'nawr, Mr. James ?

JAMES : Wel, dyw'r cyrten ddim yn barod eto, a'roedd Mr. Price a minnau yn ceisio penderfynnu a fyddai'n well iddo roi 'i araith nawr yn lle aros i ddiwedd y drydedd act. John, cer i roi help llaw iddyn' hw (*Myned John. De.*)

MARGED : Ydych chi 'n mynd i sarad 'te, Mr. Price ?

JAMES : Os na bydd y llwyfan . . .

PRICE : Gwnaf i ar unwaith (*gan gymryd llyfryn o'i boced*). Nawr, oes rhywbeth arbennig y carech i mi ei gynnwys ? Rŷch chi'n dod yma er mwyn yr Institute, wrth gwrs, heb ddim tâl ?

JAMES : Dim ond y treuliau.

PRICE : Dyna fe, dim ond eich treuliau. Arhoswch chi . . . chi yw'r awdur a chi hefyd fu'n prodiwsio. Pwy yw'r Stage Manager ? Rhaid enwi'r rhain i gyd achos y mae eu hanner heb brynnu rhaglen. Efallai mai dyna pam y mae'n rhaid i ni'r Cymry gael Cadeirydd. Welwch chi byth Gadeirydd yn y dramâu Saesneg yma.

JAMES : Wel, fi yw'r llwyfenydd hefyd, ond 'does dim angen ichi son am hynny.

PRICE : Oes. Rhaid cael y cyfan. A phwy fu wrth y "make-up ?"

SIÂN : Fe fethodd y colurwr swyddogol ddod.

PRICE : Y beth ?

MARGED : Colurwr—gair 'rŷm ni wedi'i fathu. Mae'n swnio dipyn bach yn well ynghanol geiriau Cymraeg na "make-up man."

PRICE : Colurwr ! Gair da . . . rhaid egluro hwnna iddynt. Ie, gair da dros ben yw e'. Fe glywais alw'r peth yn "weddnewid" rywdro, ond y mae hynny braidd yn rhy Feiblaidd, er mai fi sy'n dweud hynny. Wel nawr, pwy oedd y make-up man yma ? (*Dyfod John. De.*)

JAMES : Enw Mr. Gerallt Rhys sydd ar y rhaglen, ond fel y dywedodd Siân, fe fethodd â dod ar y funud ola'. Gorfu i mi wneud y gwaith er nad wy'n rhyw lawer o law arni.

SIÂN : Dyma Raglen i chi, Mr. Price.

PRICE ; Diolch, diolch yn fawr.

JAMES : Er mwyn enw da, Mr. Rhyr, efallai na byddai ond yn deg i chi ddweud taw rhywun arall fu wrth y gwaith, heb enwi neb.

PRICE : Na, na, rhaid eich henwi chwi. Chwi fu wrthi, a chwi sy'n haeddu'r clod. Ond y mae gormod o waith ar eich hysgwyddau chwi, Mr. James. Trueni na buasech chwi wedi ceisio help gan y Social Service nawr. 'Roedd rhyw gwmmi Saesneg o'r cwm arall yma yr wythnos ddiwethaf am dair noson yn olynol, a dyn yn dyfod bob nos i ofalu am y "make-up" 'ma ac yn cael ei dalu hefyd gan y Council. 'Roedd gwaith da ganddo hefyd . . . Ond arhoswch chwi, 'wela i mo'ch henw chwi yn y Rhaglen ymhlith yr actors, Mr. James. Beth yw ystyr y make-up—y blew yma sydd ar eich hwyneb chwi ?

JAMES : Fe drawyd un o'r chwaryddion yn sal yn sydyn iawn echnos, a bu'n rhaid i mi ddysgu'r rhan. Rhan fach

yw hi, a 'rwy'n gwybod y ddrama bron i gyd ar gof—wedi darllen rhan pob un yn 'i dro pan na ddigwyddai ddod i bractis.

PRICE: 'Does gyda chwi ddim understudies? Beth yw'r gair Cymraeg am understudy—dewch nawr, chwi bobol glyfar y colegau?

JOHN: 'Fu dim galw am air Cymraeg amdano yn ein cwmni ni. 'Doedd neb yn barod i gymryd y gwaith a dim pwrpas bathu un wedyn.

PRICE: Go dda! Go dda!—ond fe ddylech gael understudy i bob part, Mr. James. Nawr un gair bach am yr olygfa eto. Pan ddeuthum-i i mewn 'roeddwn i'n methu'n lân â deall beth oedd wedi digwydd. 'Roedd y llwyfan yn edrych fel cegin ond bod dim celfi yno, dim ond boes yma a thraw a'r muriau'n sobr o noeth. Dim sôn am yr hen luniau teuluol. 'Wyddoch chi, Mr. James, mae'n hawdd gweld pwy sydd ynglŷn â'n dramâu ni oddi wrth y lluniau a'r celfi fydd ar y llwyfan. Mae llun hen Domos Ifans y Gôf wedi bod mewn pob math o ddrama yma. Mae'n dal i chwarae yn ei lun er ei fod ef wedi ei gladdu ers blynyddoedd A phan ddeuthum i mewn heno 'roeddwn i'n teimlo fel petawn i mewn rhyw le dieithr. Fe gefais dipyn o sioc ac ofni'r gwaethaf hyd nes i ryw wraig ddweud wrthyf mai golyfa tŷ ar ganol "Spring cleaning" oedd hi.

JAMES (*gan chwertlin*): Mae llawer wedi bod yn holi ynglŷn â'r olygfa, Mr. Price. 'Does dim byd arbennig yn y ddrama yn galw am hynnw.

PRICE: O, mi welaf, 'roeddech chwi am gael tipyn bach o newid o'r hen olygfeydd.

JAMES: Na . . . dyma'r rheswm yn syml i chi, Mr. Price. 'Does dim gwahaniaeth pa mor dda y bo eich drama chi, 'chewch chi neb iddi chware hi os bydd galw am olygfa grand neu newid golygfeydd yn ystod y ddrama. Mae rhai o'r dramâu gorau a sgrifennwyd yn Gymraeg heb 'u gweld na'u cyhoeddi am y rheswm syml hwn. Mae'n ddigon naturiol . . . festri capel fydd y neuadd gan amlaf a 'does dim cyfleusterau yno. 'Dyw sêl y cyhoeddwyd dros y ddrama ddim yn mynd mor ddwfn â'r boced chwaith.

Fe euthum i gam ymhellach yn hon gan y gwyddwn i y byddai'n rhaid i mi fod yn Geidwad y Celfi hefyd pe ddigwyddai i'n cwmni ni 'i gwneud hi o gwbl a minnau'n cyfarwyddo. Gan nad oes angen celfi ar ystafell sydd ar hanner 'i spring cleano' fe fyddai'n arbed llawer iawn o drafferth i mi . . . 'does him angen cludo hen sofffa neu gadair esmwyth neu ford, na gofalu bod tân yn y grat, dim ond bentyca dau neu dri boes sebon heb eisiau i chi fynd ar y'ch gliniau ar ofyn neb.

PRICE: Go dda! Go dda! Angen yw mam pob dyfais, wyddoch chi.

JOHN: Wrth gwrs mae Mr. James wedi gwneud patent o'r syniad neu fe fydd yn torri mâs fel y frech ymhlith yr hen awduron.

PRICE: Dan gof, Mr. James, beth am hawlfraint y ddrama?

JAMES: Dwy gini yw honno, Mr. Price.

PRICE: Ie, dwy gini fydd drama Gymraeg *wreiddiol* fel rheol ynte? Mae dramâu o'r Saesneg wrth gwrs yn werth mwy, ag y mae eitha' gwerth dwy gini yn hon—mae'n bedair act, onid yw? Ond hyn oeddwn i am ofyn i chwi . . . nawr 'rwy'n gwybod i chwi fod yn garedig dros ben—dod yma bob cam o Gaerdydd am ddim, a rhoi'r elw i'r Institute, ond fe fyddai'n beth da pe gallwn i ddweud wrthynt nawr eich bod yn rhoi'r hawlfraint am y ddrama, neu gyfran ohono, yn ôl at yr Institute. Fe fyddai'n help i enw da y cwmni ac yn symbyliad inni allu eich gwahodd chwi yma rywdro eto.

SIÂN: Oes rhyw dreuliau arnoch chi yma?

PRICE: Mae'r neuadd am ddim wrth gwrs—ati hi y mae'r elw. 'Dwy' ddim yn meddwl bod neb ond yr Electrician yn cael ei dalu—Sais yw hwnnw ag y mae'n un o'r swyddogion.

MARGED: Beth am yr argraffu?

PRICE: Jones y Printer tu wrth hwnnw—*fe s'yn gwneud y gwaith bob tro.*

JOHN : Ydy' e wedi gostwng rhywfaint ar y draul neu'n gwneud y gwaith am ddim ?

PRICE : O'dyw e' ddim yn gwneud y gwaith yn rhad—allech chi ddim disgwyl iddo roi ei lafur yn rhad. Fe fyddai'n anodd gofyn iddo ostwng hefyd—'roedd hi braidd yn lletchwith welch chi ag yntau'n perthyn i Bwyllgor y Neuadd. Hwy fu'n gyfrifol am eich gwahodd chwi yma.

JAMES : Oes aelwyd o'r Urdd yma, Mr. Price, neu gangen o'r Blaid Genedlaethol ?

PRICE : Mae Aelwyd gan yr Urdd, 'rwy'n meddwl, rhyw gwtsh newydd 'i agor mewn rhyw hen siop. 'Wn i ddim am y Welsh Nationalists.

MARGED : Oes, mae cangen o'r Blaid yma, Mr. James.

JAMES : Rhannwch y ddwy gini rhyngddyn' 'hw, Mr. Price.

PRICE : Rhyngddynt ?

JAMES : Ie, rhowch gini i'r Blaid, a gini i'r Urdd. Efallai y byddech chi more garedig â gwneud hynny'n bersonol ?

PRICE : 'Rwy'n gweld nad ydych chwi'n gwybod am y cylch yma'n ddigon da, Mr. James. Os cymerwch chi gyngor gen' i fe rowch y cyfan i'r Urdd, neu gwell fyth, i'r Institute.. Rhaid i chwi gofio am eich henw da, Mr. James, a'r dramâu sydd heb eu sgrifennu gennych.

JAMES : 'Does gen' i fawr o awydd gwneud ffortiwn o'r drama, Mr. Price, ag hyd y gwela' i fawr o obaith chwaith. Rhannwch chi nhw fel 'rown i'n dweud a pheidiwch â sôn gair wrth neb.

(Dyfod Gwen. De).

GWEN : Mae popeth yn barod i'r drydedd act nawr, Mr. James.

PRICE : Efallai y byddai'n well i mi ohirio fy araith fach i tan ddiwedd yr act felly ?

JAMES : Dyna fyddai orau.

PRICE : Wel, mi af i y tu hwnt i'r llen. Pob hwyl a pnob lwc i chwi.

SIÂN : Esgusodwch fi, Mr. Price,—ga' i'r rhaglen ?

PRICE : Chi piau hi wrth gwrs ! Mae 'nghof i'n chwarae triciau dwl.

(Myned Price. Ch.).

MARGED : 'Glywsoch chi shwd cheek !

JAMES : Dowch ymlaen, pawb ar y llwyfan am y drydedd act . . . Siân, Marged, Sam, . . . ble mae Sam ? . . . Ewch un ohonoch chi i edrych am Sam.

JOHN : Os yw hwnna'n mynd i glebran yn hir fe gollwn ni'r tram ola' o'r dre.

JAMES : Fe ffonia i at Mrs. James i ddod â'r car i gwrdd â'r bws os byddwn ni'n hwyr iawn. 'Mlaen â chi i'r llwyfan.

(Myned Siân, Marged (De) a John, Ch.).

JAMES : A Gwen, bydd di'n barod ar y chwith. Wel, 'tawn i byth—'dwyt ti ddim wedi newid dy wisg !

GWEN : 'Ches i ddim amser, Mr. James—fe ddaeth rhyw bobol oedd yn adnabod mam at ddrws y llwyfan a allwn i ddim'u hala nhw bant yn ddiseremoni.

JAMES : 'Dwy i ddim wedi pregethu wrthych chi ganwaith nad oes neb i ddod ar y llwyfan nes bo'r ddrama drosodd ?

*(Dyfod John Ch.) dan chwerthin, a Sam yn ei ddilyn.
Mae dau gylch du am lygaid Sam).*

SAM : Beth sy'n dy gorddi di ?

JAMES : Wel tawn i'n ateb y Farn ! Beth wyt ti wedi bod yn 'i wneud i dy lygaid ?

SAM : Pam ? Dim ond tipyn bach o ddu iddi dangos nhw lan.

JAMES : Tipyn bach ! Dere iddi glanhau nhw ar unwaith cyn i neb dy weld di.

(Myned Sam a James. Ch.).

JOHN : Trueni na chawsai fynd ar y llwyfan fel 'na.

(*Dyfod Neli. De.*)

Helo ! Dyma meiledi wedi dod 'nôl.

NELI : Ydych chi ar ddechrau'r drydedd act ?

JOHN : 'Ddym ni ddim wedi cwpla'r ail eto.

NELI : Ble mae James ?

JOHN : Yn glanhau Sam. Gwell i ti fynd i dy le ar unwaith cyn y daw e'n ôl.

GWEN : Ble wyt ti wedi bod ?

(*Mynd Neli dan wenu'n faleisus. Ch.*)

Fe gaiff Mr. James wybod 'i hanes hi.

(*Dyfod Siân. De.*)

SIÂN : Ble mae Sam ? 'Rdym ni'n aros amdano.

(*Dyfod James. Ch.*)

JAMES : Fan hyn 'rwyt ti, Siân ? Mae'r cyrten ar godi.

SIÂN : 'Rwy'n edrych am Sam.

JAMES : Mae Sam ar y llwyfan nawr. (*Myned Siân (De).*)
John, 'does gennyf ti ddim iddi wneud ar ddechrau'r act yma, cer i wneud gwaith Neli.

GWEN : Mae hi wedi dod nôl o'r diwedd.

JAMES : Ble mae hi i mi gael gafael arni ?

JOHN : Gadewch iddi nawr—mae hi wrth 'i gwaith.

GWEN : Sh ! Mae'r cyrten wedi codi.

JAMES : Bydd yn barod John wrth y chwith.

JOHN : Peidiwch chi ag ordro ffilm star amboitu.

JAMES : Ffilm star myn asgwrn i ! Bant â thi i dy le.

JOHN (*wrth fynd. De*) : Mae hen ddigon o amser.

JAMES : A Gwen, 'rwy'n wedi dweud digon wrthyf chi am y wisg 'na !

GWEN : 'Does gen' i ddim amser iddi newid hi nawr.

JAMES : Dyma'r tro ola y byddwch chi mewn drama gen i !

GWEN : Mr. James bach, 'rwy' wedi'ch clywed chi'n dweud hynna gannoedd o weithiau erbyn hyn.

(*Dyfod John. De.*)

JOHN : Dowch ar unwaith, Mr. James—maen' hw am i chi roi pip ar y golau.

(*Mynd John a James (De). Dyfod Gwilym ymhen ysбайд. Ch.*)

GWILYM : Hylo Gwen ! 'Wyddwn i ddim dy fod ti gyda'r cwmni.

GWEN : 'Ddwedodd Neli ddim ?

GWILYM : Neli ? . . . na . . . ddigwyddodd hi ddim son.

GWEN : 'Rwyt ti wedi'i gweld hi te ?

GWILYM : Do, fe gefais air gyda di gynneu.

GWEN : Dim ond gair ?

GWILYM : Eitha' sgwrs a dweud y gwir . . . Ond wyddwn i ddim dy fod ti yma. 'Rwyt ti yn edrych yn hardd. (*yn ceisio'i chofleidio.*)

GWEN : Nawr, nawr, fe af i 'nôl Neli i ti.

GWILYM : Gwen fach, paid bod yn ffol. 'Rwyt ti'n gwybod yn iawn nad oes a fynnwyr i ddim â Neli.

GWEN : Dyna pam y bu hi allan cyhûd ?

GWILYM : Paid siarad dwli (*Yn gafael ynddi a'i chusanu. Ni chaff farw o drafferth.*)

GWEN : Hmmmmmm ! . . . ble wyt ti wedi bod !
(*Cofleidio a chusanu. Dyfod Siân. De.*)

SIÂN : Dyma beth yw golygfa hardd. (*Datgofleidio.*)
Maddeuwch i mi am aflonyddu arnoch chi.

GWEN (*yn hunanfeddiannol a gwawr o sbeit*) : Mr. Gwilym Evans. Miss Jane Evans.

SIÂN: 'Rwy'n credu 'n bod ni wedi cwrdd o'r blaen diolch. 'Dyw hi ddim yn bryd i ti fynd ar y llwyfan, Gwen?

GWEN: 'Rwy'n gofalu am fy "nghue," diolch.

GWILYM: Wyddwn i ddim y'ch bod chithau yn y cwmni, Siân.

SIÂN: Mae llawer o'ch hen ffrindiau chi yma—'ddigwyddodd Gwen ddim dweud fy mod i'n perthyn iddyn' nhw?

GWILYM: Wel . . . naddo.

SIÂN: Na, Neli?

JOHN (*a'i ben rownd y cornel De*): Dere' mlaen, Gwen.

SIÂN: Dyna beth rhyfedd . . . 'roedd Gwen yn gwneud 'i gorau i ddangos 'i hunan ar y llwyfan gynneu a dyma hi nawr heb yr un awydd ogwbwl!

(*Dyfod John a dwyn Gwen ymaith. De*).

JOHN: Dere 'mlaen, mae'n hen bryd i ni fynd i mewn!

SIÂN: Mae'n amlwg fod yn rhaid tynnu Gwen oddi wrthych chi—mae'n glynnu fel aderyn bach wrth y Gwew.

GWILYM: 'Rŷm ni'n hen gyfarwydd—wedi bod yn y Col. gyda'n gilydd. Mae hi a fi fwy fel brawd a chwaer na dim arall.

SIÂN: 'Rown i'n meddwl hynny pan ddes i mewn nawr. Beth yw'ch barn chi ohoni'n canu?

GWILYM: Canu?

SIÂN: Nid dyna pam y daethoch chi i gefn y llwyfan?

GWILYM: 'Wyddwn i ddim taw hi oedd yn canu. Efallai y bydd yn well i mi fynd rhag ofn i'ch prodiwsor chi fy nal i yma.

SIÂN: 'Does dim angen i chi ofni (*Yn nesu ato*) Gwilym, pam na chefais i ateb i'm llythyr?

GWILYM: Pa lythyr?

SIÂN (*yn cydio yn ei law*): Dewch nawr—fe wyddoch chi'n iawn. Fe anfonais i lythyr atoch chi i'r ysgol yn dweud y byddwn i gyda'r cwmni heno.

GWILYM: 'Chefais i'r un gair o gwbl.

SIÂN: Ellwch chi ddim fy nhwylo i.

GWILYM: 'Dwy' i ddim yn eich twyllo chi Siân—pam y dylwn i?

SIÂN: Meddwl oeddwn i efallai nad oeddech chi am fy ngweld i ogwbwl. Maddeuwch i mi am eich camfararnu.

GWILYM: 'Does dim byd iddi faddau.

SIÂN: Profwch hynny.

GWILYM: Profi hynny? Sut? Beth sy'n eich blino chi?

SIÂN: Dewch . . . un cusan.

(*Dyfod Neli. Ch.*).

NELI: Mae'n bryd i ti fod ar y llwyfan, Siân.

(*Dyfod James. De*).

JAMES: Siân! Beth gynllwyn wyt ti'n wneud yma? Maen' hw'n aros amdanat.

(*Sian, gan fynd. De*).

SIÂN: Wedi'r ddrama, Gwilym . . . cofiwch.

JAMES: Pwy y'ch chi? Pa fusnes sydd gennych chi i fod yng nghefn y llwyfan yn ymyrraeth â'r ddrama?

GWILYM: Esgusodwch fi, dod yma i chwilio am y Cadeirydd—mae gen' i neges.

JAMES: Meddyliwch am well esgus y tro nesa'—dyna'r ffordd allan.

(*Myned Gwilym. Ch.*).

NELI: Fe ddylasai fod cywilydd arnoch chi—siarad â gwr bonheddig fel petai e'n rhyw gorgi.

JAMES: Paid gwneud cam ag e. Pam nad wyt ti wrth dy waith?

NELI: Fe ddes i edrych am Siân,—'roedd yn bryd iddi fynd i'r llwyfan.

JAMES : Peth od i ti feddwl am hynny a thithau'n gwybod taw'r ochor draw 'roedd hi i ddod mewn.

NELI : Os y'ch chi'n ceisio awgrymu fy mod i'n dweud celwydd . . .

JAMES : 'Dwy'n awgrymu dim byd. Fe gawn ni setlo dy driciau di am heno o flaen y Pwyllgor.

NELI : (*gan dafiu'r llyfr mewn tymer*) : Cadwch eich hen ddrama ! 'Welsch chi byth mohono 'i yn gwneud dim byd eto. Cerwch a phromtwech y'ch hunan. (*Allan yn wyllt. Ch.*).

JAMES : Trueni hefyd—mae deunydd da ynddi pe gellid 'i ffrwyno.

(*Dyfod John. De.*)

JOHN : Ble mae Neli ? Pam nad yw hi'n promto ? Mae rhywun i fynd ar y llwyfan.

JAMES : (*yn chwilio'r llyfr*) : Dyma beth ofnadwyll ! Pan af i o'r golwg mae rhywbeth yn sicir o fynd o'i le. Cer ar unwaith a dwed wrthynt am beidio â gadael y cyrten lawr eto. (*Myned John. De.*) Dyna beth yw cawl. Pam na all pobol ofalu am 'u gwaith ? Fe gaiff y lot y sac am hyn . . . Sarnu'r ddrama ! . . . Pwy all fod wedi colli ! 'i "gue" nawr eto ? Neli ! Neli ! . . . neb wrth law pan fo eisiau . . .

(*John yn rhuthro i mewn o'r dde, a Sam dwmbwl dambal o'r chwith i ganol y llwyfan. Y ddau yn gweiddi.*)

JOHN : Dewch 'mlan Capten—aros am y'ch entri chi maen' hw.

(*John yn cipio James ymaith. De.*)

SAM (*gan anwyllo'i goes ar ei eistedd ar ganol y llwyfan*) : O daro'r blwmin dressing gown 'ma. (*Mae'n ceisio codi ond yn syrthio'n ol eilwaith*). O nghoes fach i, 'rwy wedi 'i thorri hi, ydw reit i wala, a finne fod i fynd mewn nawr hefyd !

